Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 03.05.2022

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# CYLLID: Gosod Pwyntiau Gwefru Ceir Trydan

Mae gan Lywodraeth y DU gyllid ar gael i helpu busnesau i brynu a gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan. Gall y cynllun dalu hyd at 75% o'r gost hyd at £375 fesul soced. Mae'r canllawiau ar gyfer busnesau llety (gan gynnwys gwely a brecwast, gwersylloedd a gwestai bach) ac elusennau i'w gweld yn:

https://www.gov.uk/guidance/workplace-charging-scheme-guidance-for-charities-and-small-accommodation-businesses

Mae'r canllawiau ar gyfer busnesau eraill sydd yn dymuno darparu pwyntiau gwefru ar gyfer eu staff neu eu fflydoedd ar gael ar:

https://www.gov.uk/guidance/workplace-charging-scheme-guidance-for-charities-and-small-accommodation-businesses

# TECH: Gweithdai Tref SMART – Blaenau Ffestiniog, Beddgelert ac Aberdaron

Oeddech chi'n gwybod bod systemau Tref SMART – sy'n darparu gwybodaeth am sut a phryd y mae cwsmeriaid yn ymweld â'r stryd fawr – eisoes ar waith mewn nifer o drefi a phentrefi lleol, gyda mwy ar y ffordd? Bydd y cyntaf mewn cyfres o weithdai mewn person ar sut i wneud defnydd o'r systemau i'w cynnal yn:

- Blaenau Ffestiniog, yn CellB, ar 4 Mai 2022, (6:00pm-7:30pm), ewch i: https://bit.ly/3KuPXhx

- Beddgelert, yn y Neuadd Bentref, ar 19 Mai 2022, (6:00pm-7:30pm), ewch i: https://bit.ly/37UiNKh

- Aberdaron, ym Mecws Islyn, ar 26 Mai 2022, (6:00pm-7:30pm), ewch i: https://bit.ly/35ZTVzA

# BREXIT: Diweddariad

- Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi na fydd gweddill y rheolaethau mewnforio ar nwyddau'r UE yn cael eu cyflwyno eleni. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: https://www.gov.uk/government/news/new-approach-to-import-controls-to-help-ease-cost-of-living

- Mae’r wybodaeth diweddaraf am gyfnod pontio y DU, gan gynnwys fideos, cofrestru ar gyfer rhybuddion e-bost ac ar gyfer gweminarau sydd ar y gweill, ar gael ar: https://www.gov.uk/guidance/help-and-support-for-uk-transition

## AMAETHYDDIAETH: Ffliw adar – y diweddaraf

Mae’r mesurau gorfodol ar gyfer rhoi dofednod ac adar caeth dan do i helpu atal ffliw adar rhag lledaenu bellach wedi eu codi, ond bydd y gofynion bioddiogelwch estynedig yn parhau mewn grym. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://llyw.cymru/annog-ceidwaid-adar-i-gynnal-safonau-bioddiogelwch-craff-wrth-i-fesurau-lletya-gael-eu-codi

## TRETH: Esbonio treuliau busnes a moduro

Ymunwch â gweminarau rhyngweithiol byw CThEM i ddarganfod sut i hawlio’r costau car a busnes cywir. Mae fideos byr hefyd ar gael am hawliadau treuliau ar sianel YouTube CThEM, ewch i:

https://businesswales.gov.wales/cy/newyddion-blogiau/newyddion/esbonio-treuliau-busnes-moduro

## CYFLE: Chwilio am Fentoriaid ar y prosiect Gwnaed â Gwlân

Fel rhan o’r prosiect Gwnaed â Gwlân mae Menter Môn yn ceisio ennyn grŵp o fentoriaid sy’n brofiadol yn y diwydiant i ddarparu cyngor a chymorth i’r grŵp rhanddeiliaid dros gyfnod y prosiect sy’n dod i ben ym mis Mehefin 2023. Os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch ar e-bost: gwlan@mentermon.com neu ffôn: 01248 725700.

# RHEOLIADAU: Nwyddau sy'n tarddu o Rwsia a Belarws

Ceir canllawiau ar fewnforion o Rwsia a Belarws sy'n gofyn am dollau a thelerau eithrio ychwanegol ar:

https://www.gov.uk/guidance/additional-duties-on-goods-originating-in-russia-and-belarus

# RHEOLIADAU: Ymestyn oriau trwyddedu i nodi Jiwbilî Platinwm y Frenhines

Mae senedd y DU wedi pasio gorchymyn i ymestyn oriau trwyddedu mewn tafarndai, clybiau a bariau o 11:00pm i 1:00am. Bydd yr estyniad ar gyfer dydd Iau 2 Mehefin 2022 i ddydd Sadwrn 4 Mehefin 2022. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar:

https://businesswales.gov.wales/cy/newyddion-blogiau/newyddion/jiwbili-platinwm-y-frenhines-2022

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

# Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

# Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

# Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

# Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

# FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

# Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru